***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 285

# Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**

**2.** Yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015(**1**) (awdurdodau llywodraeth ganolog), ar ôl "Welsh NHS Bodies" mewnosoder—

"The Welsh Revenue Authority".

**Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010**

**3.** Yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**2**) (awdurdodau cyhoeddus: awdurdodau Cymreig perthnasol), o dan y pennawd "other public authorities", cyn "The Auditor General for Wales or Archwilydd Cyffredinol Cymru." mewnosoder—

"The Welsh Revenue Authority or Awdurdod Cyllid Cymru."

**Diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015**

**4.** Yn yr Atodlen i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015(**3**) (swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliad rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru), mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y lle priodol yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Awdurdod Cyllid Cymru | Cadeirydd ac aelodau a benodwyd o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016". |

**Diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002**

**5.** Mae Deddf Enillion Troseddau 2002(**4**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn adran 47A(2)(**5**) (adrannau 47B i 47S: ystyr "appropriate officer"), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(**1**) O.S. 2015/102, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/275; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) 2010 p. 15.
(**3**) O.S. 2015/1536, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) 2002 p. 29.
(**5**) Mewnosodwyd adrannau 47A i 47S gan adran 55(1) a (2) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).

(b) yn adran 47G(3)(c) (cymeradwyaeth briodol), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(c) yn adran 68(3)(c) (ceisiadau ac apelau), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(d) yn adran 290(4)(c)(**6**) (cymeradwyaeth ymlaen llaw), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(e) yn adran 303A(1)(**7**) (ymchwilwyr ariannol), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(f) yn adran 352(7)(**8**) (gwarantau chwilio ac ymafael), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(g) yn adran 353(11)(**9**) (gofynion pan na fo gorchymyn cyflwyno ar gael), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(h) yn adran 378(2)(d) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad atafaelu), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(i) yn adran 378(3AA)(b)(**10**) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad arian parod dan gadwad), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(j) yn adran 378(3B)(**11**) (swyddogion priodol mewn ymchwiliad arian parod dan gadwad), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers"; a

(k) yn adran 378(6)(c) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad gwyngalchu arian), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers".

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2018

(**6**) Mewnosodwyd adran 290(4)(c) gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (p. 27), a pharagraffau 1 a 3(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.
(**7**) Mewnosodwyd adran 303A gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 13 o Atodlen 11 iddi.
(**8**) Mewnosodwyd adran 352(7) gan adran 80(2) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.
(**9**) Mewnosodwyd adran 353(11) gan adran 80(4) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.
(**10**) Mewnosodwyd adran 378(3AA)(b) gan adran 49(b) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), a pharagraffau 24 a 27(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 19 iddi.
(**11**) Mewnosodwyd adran 378(3B) gan adran 80(8) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.